

DAFYDD DARON (fl. 1400), deon Bangor

Enw: Dafydd Daron
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: deon Bangor
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Edward Lloyd

yn niwedd teyrnasiad Rhisiart II. Ym mis Tachwedd 1397 cafodd brebendiaeth Llandwrog. Ynghyd â'r cabidwl rhoes gyfrif, 19 Mai 1399, o werthoedd ariannol yr esgobaeth a fuasai yn eu gofal hwy er pan fu'r esgob Swaffham farw 24 Mehefin 1398. Ar un adeg yr oedd ganddo swydd yn eglwys Clynnog Fawr. Dyna'r cwbl a ddywed hanes cyfoes amdano.

Dywed [Browne Willis](#) (gan ddilyn Le Neve) iddo gael ei fwrw allan o'i wlad oherwydd iddo gynorthwyo [Owain Glyn Dwr](#); dywed hefyd fod y deon yn r o gyfoeth ac yn fab i Evan ap Dafydd ap Griffith, yn disgyn o Garadoc ap Iestyn. Y mae'r honiad mai yn ei dref yr arwyddwyd y 'Cytundeb Tridarn' yn fwy amheus. Yn ôl Hall, croniclydd o Sais, a'r unig awdurdod sy'n dywedyd ymhle'r arwyddwyd y ddogfen honno, yn nharchddiacon Bangor yr arwyddwyd hi, ac felly ni ellir cysylltu Dafydd Daron â'r hanes ond trwy farnu bod y gair 'archddiacon' wedi ei arfer ar gam am 'deon.'

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dwr* (1931), 1931, 94

Browne Willis, *A survey of the cathedral church of Bangor; and the edifices belonging to it ...* (1721) (arg. 1721), 122-3

An Inventory of the Early Chancery Proceedings concerning Wales (1937) (Cardiff, 1937), 15

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732739](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

